



DRAFFT

Asesiad Cyfunol o Effaith ar Gydraddoldeb, Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Gymraeg

Enw'r polisi, strategaeth, prosiect, rhaglen neu gynllun – y cynnig

Adolygiad Buddsoddi 2020 - canllawiau cynllunio a deunydd ymgeisio

Newydd:



Diweddariad:



Tîm/adran:	Grŵp Prosiect y Portffolio
Pwy sy'n cynnal yr asesiad?	Angela Thomas
Dyddiad yr asesiad	11 Hydref 2019

Cyflwyniad

Nod yr asesiad cyfunol yma o effaith yw sicrhau bod y polisïau a'r strategaethau rydym ni wrthi'n eu datblygu yn hyrwyddo blaenoriaethau cyffredinol Cyngor Celfyddydau Cymru. Mae hyn yn golygu cydraddoldebau, y Gymraeg a'r 7 nod llesiant yn Neddf Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae'r asesiad cyfunol o effaith yn cyfrannu at lunio polisïau effeithiol drwy ein hannog i feddwl am effaith a chanlyniadau ein gwaith. Drwy fynd i'r afael â'r materion hyn yn benodol ar y cam cynllunio cynharaf, rydym ni'n fwy tebygol o ddatblygu cynigion sy'n cyflawni ein blaenoriaethau. Os yw'r broses yma'n nodi problemau, mae gennym y cyfle i gymryd camau lliniaru i unioni pethau. Mae hyn yn ein helpu i fodloni ein gofynion dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, Mesur y Gymraeg 2011 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Drwy'r ddogfen yma rydym ni'n defnyddio'r gair 'cynnig' i gyfeirio at yr hyn rydym ni'n ei asesu sy'n cynnwys:

- strategaethau
- prosiectau
- polisïau
- rhaglenni
- mentrau

gan gynnwys rhai newydd a rhai cyfredol sy'n cael eu newid/diweddaru'n sylweddol.

Atebwch y cwestiynau canlynol a rhoi manylion pan fo'n briodol.

1. Beth yw prif nodau/dibenion/canlyniadau'r cynnig?

Ein gweledigaeth yw Cymru Greadigol lle mae'r celfyddydau'n ganolog i fywyd a llesiant y genedl.

Mae dwy flaenoriaeth yn ategu ein gweledigaeth:

- Hyrwyddo **cydraddoldebau'n** sylfaen i ymrwymiad clir i gyrraedd yn ehangach ac yn ddyfnach bob cymuned ledled Cymru
- **Cryfhau gallu a gwytnwch** y sector, gan alluogi talent greadigol i ffynnu

Drwy'r adolygiad buddsoddi yma, byddwn ni'n cytuno ar garfan newydd o sefydliadau i Bortffolio Celfyddydol Cymru. Bydd y rhain wrth wraidd ein gweledigaeth i ddatblygu a chryfhau celfyddydau Cymru a chyrraedd cynulleidfaoedd newydd. Rydym ni am i ragor o bobl yng Nghymru fwynhau'r celfyddydau a chymryd rhan ynddynt. Ac rydym ni am i'r

gweithgarwch rydym ni'n ei ariannu gyrraedd mwy o lawer ar draws yr ystod lawn o gyhoedd Cymru nag sy'n digwydd ar hyn o bryd.

I gyflawni'r nod yma, byddwn ni'n cynnal adolygiad manwl o'n hariannu presennol i gael Portffolio o sefydliadau sy'n fywiog yn artistig, cadarn yn ariannol ac sy'n cyflwyno darpariaeth gelfyddydol o safon ym mhob rhan o Gymru.

2. Ar bwy y mae'r cynnig yn effeithio? Pwy sydd i fod cael budd o'r cynnig a sut?

Mae'r cynnig yma'n effeithio ar y Portffolio ac unrhyw sefydliadau sy'n bodloni meini prawf cymhwysedd yr adolygiad buddsoddi.

Mae buddiolwyr y cynnig yn cynnwys sefydliadau celfyddydol, artistiaid a'r cyhoedd yn gyffredinol.

3. Oedd ymgynghoriad/ymgysylltiad â'r bobl mae'r cynnig yn effeithio arnyn nhw?

Bydd gweithgarwch yr adolygiad buddsoddi'n dechrau gydag ymgynghoriad cyhoeddus llawn. Rydym ni am roi cyfle i bawb, nid dim ond y sefydliadau sy'n cymryd rhan yn yr adolygiad, i roi sylwadau am ddiben yr adolygiad a'i ganlyniad. Bydd yr ymgynghoriad yma'n rhedeg o Dachwedd 2019 hyd ddechrau Ionawr 2020. Bydd yn cynnwys adborth ar y canlynol:

- y canllawiau cynllunio
- y ffurflen gais a'r canllawiau am ei llenwi
- y broses apelio

Bydd fersiynau terfynol o'r uchod yn cael eu cyhoeddi ym Mawrth 2020 pan fydd y broses ymgeisio'n agor.

4. Beth sy'n cael ei wneud i gyfyngu ar effaith negyddol neu hyrwyddo effaith gadarnhaol ar grwpiau â nodweddion gwarchodedig, y Gymraeg ac amcanion Cenedlaethau'r Dyfodol?

Llenwch y tabl yn Atodiad 1.

Os oes newidiadau, rhestrwch nhw yn y templed camau gweithredu yn Atodiad 2.

Mae asesiad cyfunol o effaith sydd ar wahân i'n proses apelio. Dyma'r asesiad o effaith sy'n ystyried ein canllawiau cynllunio ac ymgeisio cyn yr ymgynghoriad. Bydd yn cael ei ddiweddarau'n bellach i adlewyrchu canlyniadau'r ymgynghoriad a'r fersiynau terfynol o'r dogfennau uchod, cyn ei gyhoeddi ym Mawrth 2020. Nid yw'n ystyried effaith bosibl gwaith y Portffolio terfynol yn ôl ein blaenoriaethau strategol. Ystyriaeth ar wahân fydd hynny ar ôl cadarnhau'r portffolio newydd.

Mae adran 3.1 o'n canllawiau cynllunio yn nodi'n benodol y tair ystyriaeth gyffredinol a fydd yn ffurfio'r cyd-destun diwylliannol, cymdeithasol a deddfwriaethol i'n gwaith. Yn y cyd-destun yna byddwn ni'n asesu ceisiadau. Dyma'r tair:

- Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
- Cydraddoldeb
- Y Gymraeg

Gweler Atodiad 1 am ystyriaeth fanwl o effeithiau cadarnhaol a negyddol posibl ein cynigion ar gyfer yr adolygiad buddsoddi ar bob un o'r rhain.

5. Sut y bydd y cynnig yn hyrwyddo cydraddoldeb, dileu gwahaniaethu a hyrwyddo cysylltiadau da?

Un o ddibenion allweddol yr adolygiad yw sicrhau bod pawb (ni waeth beth fo'u cefndir, lleoliad neu ddiwylliant) yn gallu mwynhau celfyddydau o safon, boed fel ymarferwr, gweithiwr, cyfranogwr neu aelod o'r gynulleidfa.

Mae'r adolygiad buddsoddi yn agored i bob sefydliad sy'n bodloni'r meini prawf cymhwyso. Fel derbynwyr posibl o symiau sylweddol o arian cyhoeddus, diben y meini prawf yw sicrhau bod sefydliadau yn gallu dangos:

- safonau llywodraethu da
- cyfansoddiad priodol i fodloni ein gofynion perfformio, monitro ac adrodd

Byddwn ni'n gweithredu telerau'r adolygiad yn gyson gyda phob sefydliad sy'n gymwys i ymgeisio i fod rhan o'r portffolio. Nid ydym ni wedi nodi unrhyw effaith wahaniaethol sylweddol bosibl. Ond mae rhai mân effeithiau gwahaniaethol - cadarnhaol a negyddol. Mae tystiolaeth o'r rhain yn yr atodiadau.

Asesiad cyfunol o effaith wedi'i gymeradwyo gan	Dyddiad cymeradwyo

Atodiad 1

Asesu effaith a chryfhau

Mae'r adran yma'n gofyn ichi asesu effaith y cynnig ar bob un o'r grwpiau â nodweddion gwarchodedig, y Gymraeg ac amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Gan ddefnyddio'r wybodaeth sydd ar gael, nodwch effeithiau'r cynnig ar y grwpiau canlynol

Nodwch yr effaith bosibl

	+ effaith gadarnhaol	- effaith negyddol	Dim effaith	Sut mae'n effeithio ar y categori yma a beth yw'r dystiolaeth?	Sut mae modd cyfyngu ar yr effaith negyddol?	Sut mae modd hyrwyddo'r effaith gadarnhaol?
Oedran <i>(ar draws holl rychwant oed)</i>			Dim effaith	Mae ein dogfennau cyhoeddedig y cyfeirir atynt yn ein canllawiau cynllunio yn cydnabod pwysigrwydd amrywiaeth ar draws yr holl nodweddion gwarchodedig gan gynnwys oed. Bydd y dogfennau hyn yn rhan allweddol o'n proses benderfynu ac felly bydd yn sicrhau na fydd effaith wahaniaethol.		
Anabledd	effaith gadarnhaol			Mae data arolwg diweddar o'r Portffolio yn dangos bod 159 o bobl anabl wedi'u cyflogi yn y Portffolio yn 2018/19. Roedd 32 o bobl anabl ar fyrddau rheoli ein portffolio yn 2018/19. Mae hyn yn gynnydd ar ffigurau		Rydym ni wedi cyhoeddi ein hymrwymiad yn ein cynlluniau cydraddoldeb corfforaethol a strategol i dreblu nifer y bobl anabl ar fyrddau'r Portffolio a

	+ effaith gadarnhaol	- effaith negyddol	Dim effaith	Sut mae'n effeithio ar y categori yma a beth yw'r dystiolaeth?	Sut mae modd cyfyngu ar yr effaith negyddol?	Sut mae modd hyrwyddo'r effaith gadarnhaol?
Anabledd		effaith negyddol		2017/18 pan oedd 16 o bobl anabl ar y byrddau rheoli. Bydd yr adolygiad yn gwahodd cyflwyniadau gan grŵp dewisedig o sefydliadau sy'n bodloni ein meini prawf cymhwysedd. Rydym ni'n gwybod bod sefydliadau dan arweiniad pobl anabl yn cael eu tangynrychioli'n sylweddol yn ein portffolio presennol.	Maes allweddol inni yw gwella cyfleoedd a chynrychiolaeth yn y celfyddydau i bobl anabl. Edrychwch ar y golofn nesaf i weld ein camau gweithredu.	dyblu'r nifer sy'n gweithio yn y celfyddydau. Rhaid i sefydliadau sy'n ymgeisio dan yr adolygiad buddsoddi ddarparu manylion am nifer y bobl anabl maen nhw'n eu cyflogi ar hyn o bryd ac wedi'u penodi i'w byrddau, gyda manylion am unrhyw weithgarwch yn eu cynlluniau busnes i fynd i'r afael â hyn. Bydd y wybodaeth yma'n llywio ein hasesu.
Ailbennu rhywedd			Dim effaith	Rydym ni'n ceisio sicrhau rhagor o gynrychiolaeth o'r holl nodweddion gwarchodedig drwy aelodaeth a		

	+ effaith gadarnhaol	- effaith negyddol	Dim effaith	Sut mae'n effeithio ar y categori yma a beth yw'r dystiolaeth?	Sut mae modd cyfyngu ar yr effaith negyddol?	Sut mae modd hyrwyddo'r effaith gadarnhaol?
Ailbennu rhywedd				gwaith ein portffolio, ond nid yw'r adolygiad yn gwahaniaethu ar sail rhywedd nac ailbennu rhywedd. Felly ein barn ni yw na fydd yn cael effaith wahaniaethol.		
Priodas a phartneriaeth sifil			Dim effaith	Nid yw'r adolygiad yn gwahaniaethu ar sail statws priodas a phartneriaeth sifil. Felly ein barn ni yw na fydd yn cael effaith wahaniaethol.		
Beichiogrwydd a mamolaeth			Dim effaith	Nid yw'r adolygiad yn gwahaniaethu ar sail beichiogrwydd/mamolaeth. Felly ein barn ni yw na fydd yn cael effaith wahaniaethol.		
Hil	effaith gadarnhaol			Mae data arolwg diweddar o'r Portffolio yn dangos bod 175 o bobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn gweithio yn y Portffolio yn 2018/19. Roedd 17 o bobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig ar fyrdau rheoli ein Portffolio yn 2018/19. Mae hyn yn gynnydd ar ffigurau 2017/18 pan oedd 13 o bobl		Mae gwella cyfleoedd a chynrychiolaeth yn y celfyddydau ar gyfer pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn faes allweddol inni. Rydym ni wedi cyhoeddi ein hymrwymiad yn ein cynlluniau cydraddoldeb corfforaethol a

	+ effaith gadarnhaol	- effaith negyddol	Dim effaith	Sut mae'n effeithio ar y categori yma a beth yw'r dystiolaeth?	Sut mae modd cyfyngu ar yr effaith negyddol?	Sut mae modd hyrwyddo'r effaith gadarnhaol?
Hil		effaith negyddol		dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig ar fyrddau rheoli Bydd yr adolygiad yn gwahodd cyflwyniadau gan grŵp dewisedig o sefydliadau sy'n bodloni ein meini prawf cymhwysedd. Rydym ni'n gwybod bod sefydliadau dan arweiniad pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn cael eu tangynrychioli'n sylweddol yn ein portffolio presennol.	Mae gwella cyfleoedd a chynrychiolaeth yn y celfyddydau ar gyfer pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn faes allweddol inni. Edrychwch ar y golofn nesaf i weld ein camau gweithredu.	strategol i dreblu nifer y bobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig ar fyrddau'r Portffolio a dyblu'r nifer sy'n gweithio yn y celfyddydau. Rhaid i sefydliadau sy'n gwneud cais dan yr adolygiad buddsoddi ddarparu manylion am nifer y bobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig maen nhw'n eu cyflogi ar hyn o bryd ac sydd wedi'u penodi i'w byrddau, gyda manylion unrhyw weithgarwch yn eu cynlluniau busnes i fynd i'r afael â hyn. Bydd y wybodaeth yma'n llywio ein hasesu.
Crefydd/cred			Dim effaith	Nid yw'r adolygiad yn gwahaniaethu ar sail crefydd neu		

	+ effaith gadarnhaol	- effaith negyddol	Dim effaith	Sut mae'n effeithio ar y categori yma a beth yw'r dystiolaeth?	Sut mae modd cyfyngu ar yr effaith negyddol?	Sut mae modd hyrwyddo'r effaith gadarnhaol?
Crefydd/cred				gred. Felly ein barn ni yw na fydd yn cael effaith wahaniaethol.		
Rhywedd			Dim effaith	Nododd Adroddiad Arolwg o'r Portffolio, 2018/19 fod ychydig yn fwy o ddynion na menywod ar fyrddau ein Portffolio presennol. Ond mae'r bwlch yn parhau i gau. Er bod gwahaniaeth bach yma, nid yw'r adolygiad yn gwahaniaethu ar sail rhywedd. Felly ein barn ni yw na fydd yn cael effaith wahaniaethol.		
Cyfeiriadedd rhywiol			Dim effaith	Rydym ni'n ceisio sicrhau rhagor o gynrychiolaeth o'r holl nodweddion gwarchodedig drwy aelodaeth a gwaith ein portffolio, ond nid yw'r adolygiad yn gwahaniaethu ar sail cyfeiriadedd rhywiol. Felly ein barn ni yw na fydd yn cael effaith wahaniaethol.		
Diwylliant a'r Gymraeg	effaith gadarnhaol			Mae gweithgarwch Cymraeg yn faes allweddol inni, sy'n amlwg yn ein canllawiau cynllunio. Rydym ni'n monitro cynnydd yn ofalus drwy Grŵp monitro'r Gymraeg. Nododd yr Arolwg o'r Portffolio, 2018/19 fod 45,114 o bobl wedi mynychu perfformiadau teithiol yn y		Bydd gweithgarwch Cymraeg a'r cyfle i siaradwyr Cymraeg ar draws y celfyddydau yn ystyriaeth sylfaenol wrth asesu ceisiadau i'r adolygiad.

	+ effaith gadarnhaol	- effaith negyddol	Dim effaith	Sut mae'n effeithio ar y categori yma a beth yw'r dystiolaeth?	Sut mae modd cyfyngu ar yr effaith negyddol?	Sut mae modd hyrwyddo'r effaith gadarnhaol?
Diwylliant a'r Gymraeg		effaith negyddol		Gymraeg. Mae hyn yn llai na'r flwyddyn flaenorol. Ond mae'n gynydd o 11.1% o'i gymharu â 2016/17, sef y flwyddyn rydym ni'n cyfrifo'r data sylfaenol ar gyfer pennu targedau'r cynllun corfforaethol. Yn yr un modd, mynychodd 73,136 o bobl berfformiadau Cymraeg mewn lleoliadau sy'n perthyn i'r Portffolio -cynydd o 36.2% o'i gymharu â 2016/17. Rydym yn croesawu ceisiadau yn Gymraeg a'r Saesneg i'n hadolygiad. Byddwn ni'n trefnu asesu ceisiadau Cymraeg yn eu hiaith wreiddiol. Gallai'r adolygiad gael effaith wahaniaethol ar siaradwyr Cymraeg gan y gallai o bosibl leihau neu gynyddu'r nifer yn y Portffolio sy'n cyflwyno gwaith drwy gyfrwng y Gymraeg. Gallai hyn wedyn effeithio ar hygyrchedd y celfyddydau i'r cyhoedd Cymraeg.	Yn ein canllawiau cynllunio mae ymrwymiad i weld	Bydd swyddogion Cymraeg yn asesu ceisiadau Cymraeg.

	+ effaith gadarnhaol	- effaith negyddol	Dim effaith	Sut mae'n effeithio ar y categori yma a beth yw'r dystiolaeth?	Sut mae modd cyfyngu ar yr effaith negyddol?	Sut mae modd hyrwyddo'r effaith gadarnhaol?
Diwylliant a'r Gymraeg					gwaith o safon yn y Gymraeg sy'n adlewyrchu'r Gymru gyfoes fel canlyniad clir i'r adolygiad yma. Byddwn ni'n chwilio am ragor o waith wedi'i greu a ddylai arwain at ragor o gyfleoedd a thyfu'r farchnad ar gyfer y Gymraeg mewn ffordd gynaliadwy yn y tymor hwy.	
Cymunedol <i>(gan gynnwys bod yn wledig)</i>	effaith gadarnhaol			Drwy'r adolygiad yma rydym ni am greu portffolio sy'n cyrraedd cynulleidfa ehangach. Yn ein canllawiau cynllunio rydym ni'n ymrwymo i chwilio am sefydliadau sy'n adlewyrchu ein cymunedau ac ymgysylltu â nhw. Rydym ni am gefnogi portffolio sy'n ymgysylltu â chymunedau amrywiol ac anos eu cyrraedd a hyrwyddo cynwysoldeb a chydaddoldeb ym mhob peth maen nhw'n ei wneud		Bydd yr ystyriaeth yma'n ffurfio rhan allweddol o'n proses asesu. Bydd yn rhaid i ymgeiswyr ddangos sut maen nhw'n bodloni'r gofyniad drwy eu cais a'u cynllun busnes.

	+ effaith gadarnhaol	- effaith negyddol	Dim effaith	Sut mae'n effeithio ar y categori yma a beth yw'r dystiolaeth?	Sut mae modd cyfyngu ar yr effaith negyddol?	Sut mae modd hyrwyddo'r effaith gadarnhaol?
Byd-eang (<i>defnydd o adnoddau naturiol, masnach deg, cyflogaeth foesegol a chaffael</i>)			Dim effaith	Mae ystyriaethau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn rhan annatod o'n canllawiau cynllunio a rhaid i ymgeiswyr eu hystyried wrth ymgeisio. Mae ein canllawiau cynllunio'n annog ymgeiswyr i feddwl yn gydweithiol, nid yn unig ar adeg ymgeisio ond drwy eu gwaith yn gyffredinol gan ymgysylltu'n fwy yn eu cymunedau eu hunain a meddwl yn greadigol am ddefnyddio adnoddau amgen a allai fod ar gael iddynt. Ar wahân i hyn, nid ydym ni wedi nodi unrhyw effeithiau gwahaniaethol o bwys yn y canllawiau cynllunio a'r deunyddiau ymgeisio.		
Iechyd			Dim effaith	Mae'r effaith gadarnhaol mae'r celfyddydau'n ei chael ar iechyd ein dinasyddion, boed yn aelodau o'r gynulleidfa neu'n gyfranogwyr, yn hysbys ddigon. Mae ystyriaethau iechyd yn faes gweithgarwch allweddol inni a bydd ymgeiswyr yn gallu sôn am berthnasedd am gwaith i iechyd wrth ymgeisio. Byddwn ni'n ceisio datblygu'r gwaith yma ymhellach drwy ein portffolio a'r gweithgarwch rydym		

	+ effaith gadarnhaol	- effaith negyddol	Dim effaith	Sut mae'n effeithio ar y categori yma a beth yw'r dystiolaeth?	Sut mae modd cyfyngu ar yr effaith negyddol?	Sut mae modd hyrwyddo'r effaith gadarnhaol?
Iechyd				ni'n ei ariannu ond nid ydym ni o'r farn ei fod yn cael effaith wahaniaethol – cadarnhaol neu negyddol – ar broses asesu'r adolygiad sydd yn y canllawiau cynllunio.		
Ffyniant <i>(gan gynnwys cynaliadwyedd, sefydlogrwydd ariannol a datblygu gyrfa/cyfle)</i>	effaith gadarnhaol			Mae'r portffolio yn cael cyfraniad tuag at eu costau craidd. Bwriad hyn yw darparu'r adnoddau a'r sefydlogrwydd ariannol angenrheidiol iddynt allu cyflawni eu hamcanion strategol. Hefyd yn ein canllawiau cynllunio, rydym ni'n tynnu sylw at y cyfleoedd i weithio yn y celfyddydau a'r gofyniad ar ein portffolio i helpu'r proffesiwn i ddatblygu a thyfu.		Mae'r canllawiau cynllunio a'r ffurflen gais yn rhoi gwybodaeth fanwl i ymgeiswyr am yr agweddau mae'n rhaid iddynt eu dangos wrth ofyn am arian a'r gweithgarwch cyfatebol. Bydd yr agweddau hyn yn rhan allweddol o'n proses asesu. Bydd yn rhaid i ymgeiswyr ddangos sut maen nhw'n bodloni'r gofyniadau drwy eu cais a'u cynllun busnes.
Gwynwch <i>(amgylchedd naturiol gan gynnwys nwyon)</i>	effaith gadarnhaol			Mae ystyriaethau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn rhan annatod o'n canllawiau cynllunio, ac mae'n rhaid i ymgeiswyr eu hystyried yn y broses ymgeisio.		Mae ein canllawiau cynllunio'n annog ymgeiswyr i feddwl yn gydweithiol, nid yn unig ar adeg ymgeisio

	+ effaith gadarnhaol	- effaith negyddol	Dim effaith	Sut mae'n effeithio ar y categori yma a beth yw'r dystiolaeth?	Sut mae modd cyfyngu ar yr effaith negyddol?	Sut mae modd hyrwyddo'r effaith gadarnhaol?
<i>tŷ gwydr ac ôl troed carbon</i>						ond drwy eu gwaith yn gyffredinol gan ymgysylltu'n fwy yn eu cymunedau eu hunain a meddwl yn greadigol am ddefnyddio adnoddau amgen a allai fod ar gael iddynt. Ar wahân i hyn, nid ydym ni wedi nodi unrhyw effeithiau gwahaniaethol o bwys yn y canllawiau cynllunio a'r deunyddiau ymgeisio. Mae ein proses ymgeisio a'r deunydd cysylltiedig ar gael yn electronig ac mae gennym broses ar-lein sy'n lleihau'r angen am bapur. Bydd ein proses asesu'n cael ei chynnal yn electronig i raddau helaeth, gan leihau'r angen i swyddogion argraffu ceisiadau a deunydd cysylltiedig.

Atodiad 2

Camau gweithredu sy'n deillio o'r asesiad yma

Wrth greu cam gweithredu rhaid ichi wneud yn siŵr bod modd ei chyflawni. Mae angen ichi drafod y camau gweithredu gyda'r swyddog arweiniol. Cytunwch ar amserlen, sut bydd y cam gweithredu'n cael ei ariannu, ei ddarparu a'i fonitro. Rhaid gwneud hyn cyn cymeradwyo'r asesiad o effaith a'r cynnig cysylltiedig.

Mater	Cam gweithredu/tasg	Cyfrifoldeb arweiniol	Amserlen	Goblygiadau o ran adnoddau	Sylwadau
Anabledd Rydym ni'n gwybod bod sefydliadau dan arweiniad pobl anabl yn cael eu tangynrychioli'n sylweddol yn ein portffolio presennol.	Rhaid i sefydliadau sy'n gwneud cais dan yr adolygiad ddarparu manylion am nifer y bobl anabl maen nhw'n eu cyflogi ar hyn o bryd ac sydd wedi'u penodi i'w byrddau, gyda manylion unrhyw weithgarwch yn eu cynlluniau busnes i fynd i'r afael â hyn. Bydd y wybodaeth yma'n llywio ein hasesu.	Uwch Dîm Arwain/Cyngor	Proses asesu (Mai-Medi 2020) Penderfyniad y Cyngor (Hydref 2020)	Argaeledd staff allweddol drwy gydol y broses	Gweithgareddau wedi'u cefnogi gan gynllun prosiect manwl gydag adnoddau wedi'u dyrannu ac yn destun craffu rheolaidd.
Hil Rydym ni'n gwybod bod sefydliadau dan arweiniad pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig wedi'u tangynrychioli'n	Rhaid i sefydliadau sy'n gwneud cais dan yr adolygiad ddarparu manylion am nifer y bobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig maen nhw'n eu cyflogi ar hyn o bryd ac sydd wedi'u penodi i'w byrddau, gyda manylion unrhyw	Uwch Dîm Arwain/Cyngor	Proses asesu (Mai-Medi 2020) Penderfyniad y Cyngor (Hydref 2020)	Argaeledd staff allweddol drwy gydol y broses	Gweithgareddau wedi'u cefnogi gan gynllun prosiect manwl gydag adnoddau wedi'u dyrannu ac yn destun craffu rheolaidd.

Mater	Cam gweithredu/tasg	Cyfrifoldeb arweiniol	Amserlen	Goblygiadau o ran adnoddau	Sylwadau
sylweddol yn ein portffolio presennol	weithgarwch yn eu cynlluniau busnes i fynd i'r afael â hyn. Bydd y wybodaeth yma'n llywio ein hasesu.				
Diwylliant a'r Gymraeg Gallai'r adolygiad gael effaith wahaniaethol ar siaradwyr Cymraeg gan y gallai o bosibl leihau neu gynyddu nifer y sefydliadau yn y portffolio sy'n cyflwyno gwaith drwy gyfrwng y Gymraeg. Gallai hyn wedyn effeithio ar hygyrchedd y celfyddydau i'r cyhoedd Cymraeg.	Yn ein canllawiau cynllunio mae ymrwymiad i weld gwaith o safon yn y Gymraeg sy'n adlewyrchu'r Gymru gyfoes fel canlyniad clir i'r adolygiad yma. Bydd swyddogion Cymraeg yn asesu ceisiadau Cymraeg.	Uwch Dîm Arwain/Cyngor Uwch Dîm Arwain	Proses asesu (Mai-Medi 2020) Penderfyniad y Cyngor (Hydref 2020)	Y ceisiadau sy'n dod yn mynd i'r afael yn ddigonol ag ystyriaethau Cymraeg Argaeledd staff allweddol drwy gydol y broses	Gweithgareddau wedi'u cefnogi gan gynllun prosiect manwl gydag adnoddau wedi'u dyrannu ac yn destun craffu rheolaidd.
Sut byddwn ni'n monitro'r rhain? Drwy'r Grŵp Prosiect a fydd yn adrodd i'r Uwch Dîm Arwain drwy gydol proses ymgeisio ac asesu'r adolygiad a thrwy'r cyhoeddiadau am y Portffolio ar ddiwedd y broses yn Hydref 2020					
Sut a ble byddwn ni'n cyhoeddi hyn? Bydd yr asesiad cyntaf o effaith yn cael ei gyhoeddi ar adeg yr ymgynghoriad a'i ddiweddarau a'i ailgyhoeddi ym Mawrth 2020 pan fydd canlyniadau'r ymgynghoriad yn hysbys.					